Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

National Assembly for Wales
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS
Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

28 Mehefin 2018

Annwyl Michael,

Adroddiad ar drefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig waith ar y trefniadau llywodraethu amgylcheddol a fydd eu hangen ar ôl i ni adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae adroddiad ar ein casgliadau ynghlwm.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried yr adroddiad ar ein gwaith fel rhan o'ch ymgynghoriad ar 'Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu ar ôl Ymadael â'r UE'[1].

Nododd y Pwyllgor y datganiad a gyhoeddwyd gan Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, pan gyhoeddwyd eich ymgynghoriad[2]. Dywedodd ei bod hi'n 'siomedig' nad oedd Llywodraeth Cymru 'wedi cael y cyfle i drafod' o ran y gwaith a arweiniodd at gyhoeddi eich ymgynghoriad. Aeth rhagddi i ddweud bod 'Cymru'n parhau'n barod i gydweithio' â Llywodraeth y DU.

Roedd ein rhanddeiliaid yn glir bod angen sefydlu corff newydd i gyflawni'r gwaith rheoleiddio a gorfodi y mae sefydliadau Ewropeaidd yn gyfrifol amdano ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw at yr angen brys i osgoi 'bwlch llywodraethu' ar ôl i ni adael yr

[1] https://consult.defra.gov.uk/eu/environmental-principles-and-governance/
[2] https://twitter.com/wgcs_rural/status/994600433590132737

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r Pwyllgor wedi argymell, os caiff corff o'r fath ei sefydlu ar lefel y Deyrnas Unedig, dylai fodloni'r meini prawf canlynol:

- rhaid iddo gael ei gynllunio ar y cyd gan holl wledydd gwahanol y DU;
- rhaid iddo fod yn atebol i ddeddfwrfeydd, yn hytrach na llywodraethau;
- rhaid iddo gael adnoddau priodol; a
- rhaid wrth fecanweithiau priodol er mwyn datrys anghydfodau.

Rydym hefyd wedi argymell, os caiff ei sefydlu, y dylai corff llywodraethu o'r fath fod yn gyfrifol am y swyddogaethau canlynol:

- hyrwyddo diogelu'r amgylchedd ymysg gweithredwyr y llywodraeth a'r gymuned ehangach;
- monitro ac adrodd ar gynnydd wrth weithredu cyfreithiau amgylcheddol a darparu data gwyddonol hanfodol;
- cymryd camau lle na chyrhaeddir targedau/amcanion, er enghraifft trwy osod cosbau economaidd;
- rhoi i ddinasyddion a sefydliadau cymdeithas sifil fynediad at y systemau cwyno a gorfodi; a
- mabwysiadu strategaeth bolisi hirdymor sydd y tu hwnt i'r cylch gwleidyddol.

Yn yr adroddiad, cydnabu'r Pwyllgor ei bod hi'n annhebygol y bydd corff olynol ar waith erbyn y diwrnod yr ymedy'r DU â'r UE. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU drafod y potensial am drefniant trosiannol i sicrhau y gellir arfer swyddogaethau rheoleiddio a gorfodi mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol.

Dylai'r trefniadau dros dro hyn fod ar waith hyd nes y gellir sefydlu corff olynol addas, naill ai ar lefel Cymru neu ar lefel y DU.

A allwch chi roi gwybod i ni a yw eich adran yn gwneud unrhyw waith i sefydlu'r trefniadau trosiannol angenrheidiol hynny?

Edrychwn ymlaen at weld canlyniadau'r ymgynghoriad gan obeithio y bydd ein cyfraniad yn helpu i lunio'r mecanweithiau gorau ar gyfer sicrhau y cedwir y warchodaeth amgylcheddol sydd gennym yn awr.

Yn gywir,

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig